

Cyngor a Chwestiynau Cyffredin

Cyn cychwyn eich cais, rydym yn awgrymu eich bod yn darllen Cynllun Strategol Llenyddiaeth Cymru 2019-2022, sydd ar gael [yma](#).

Cyngor

Nodau ac Amcanion y Comisiynau hyn:

- Darparu gweithgaredd ysgrifennu creadigol **arloesol a newydd** i bobl ar incwm isel sy'n cefnogi iechyd meddwl a llesiant
- Darparu cyfleoedd i awduron sydd ar gychwyn eu gyrfa a chynulleidfaoedd creadigol **ddatblygu neu ddysgu sgiliau newydd**
- Creu prosiectau peilot y gellir eu defnyddio fel arfer da ar gyfer prosiectau yn y dyfodol mewn ardaloedd eraill yng Nghymru
- Gweithio **mewn partneriaeth** â sefydliad lleol (gwirfoddol / trydydd sector) sydd â phrofiad o gefnogi pobl ar incwm isel, megis cymdeithasau tai, elusennau digartref ac ati.
- Darparu **gwaith â thâl i awduron llawrydd** mewn cyfnod lle maent yn wynebu ansicrwydd economaidd oherwydd Pandemig COVID-19
- **Diddanu** cleientiaid a chynulleidfaoedd gyda chynnwys llenyddol cyffrous, difyr a gafaelgar
- Defnyddio llwyfannau digidol, ac o bosib gweithgaredd wyneb yn wyneb o bell, i ddod â chynulleidfaoedd a chymunedau creadigol ynghyd trwy lenyddiaeth

Argymhellion ar y cynulleidfaoedd i'w targedu:

- Y rheiny sy'n uniaethu gydag o leiaf un Dair Nodwedd Benodol Llenyddiaeth Cymru (unigolion o gefndiroedd incwm isel, unigolion o gefndiroedd Du, Asiaidd neu leiafrif ethnig, unigolion sydd ag anableddau neu salwch (corfforol neu feddyliol))

Cymdeithasau Tai

Banciau Bwyd

Men's Shed

Llochesi Digartref

Women's Aid

Teithwyr Sipsi Roma

Cynnwys Creadigol:

- Awgrymwn fod prosiectau'n cynnwys cyflwyno 4-6 sesiwn greadigol i'r grŵp targed a chynhyrchu prosiect gorffenedig ar y diwedd y gellir ei arddangos a'i ddefnyddio fel templed ar gyfer datblygu yn y dyfodol. E.e. llyfr, darn perfformio, neu ffilm
- Rhaid i brosiectau ddarparu gweithgareddau cyfranogi creadigol ar gyfer grŵp incwm isel
- Rhaid i brosiectau gynnwys elfen llenyddol / ysgrifennu creadigol, ond gallant hefyd gynnwys ffurfiau celf eraill - h.y. ysgrifennu creadigol a darlunio
- Rhaid dogfennu a gwerthuso'r prosiectau. Gall Llenyddiaeth Cymru helpu gyda'r elfen hon.

Mae croeso i awduron ac artistiaid sydd wedi'u lleoli yn unrhyw le yng Nghymru wneud cais. **Byddwn yn cadw'ch cais ar ffeil am 24 mis** ac efallai y byddwn yn gwahodd awduron ac ymarferwyr creadigol **i fynegi diddordeb neu ddarparu dyfynbris** ar gyfer cyflwyno prosiectau penodol yn ystod y cyfnod hwnnw.

Rydym yn croesawu ceisiadau i gynnal prosiectau drwy gyfrwng y Gymraeg, y Saesneg neu yn ddwyieithog.

Cwestiynau Cyffredin

Beth yw pwrpas y prosiectau hyn?

Mae pwrpas y prosiectau hyn yn driphlyg. Yn gyntaf, darparu gwaith â thâl i awduron llawrydd sy'n wynebu colli incwm yn sylweddol oherwydd gweithgaredd wedi'i ganslo neu ei ohirio yn ystod yr amser ansicr hwn. Yn ail, i fynd i'r afael â heriau **iechyd a llesiant** i bobl ar **incwm isel** trwy lenyddiaeth ac ysgrifennu creadigol; a difyrru, ysbrydoli ac addysgu cynulleidfaoedd creadigol, awduron sydd ar gychwyn eu gyrfa a chyfranogwyr ledled Cymru. Yn drydydd, gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau a chreu templed prosiect y gellid ei uwchraddio a'i gynnig ledled Cymru.

Faint o gyllid sydd ar gael?

Mae yna bedwar comisiwn unigol gydag uchafswm o **£2,000** yr un ar gael, sydd yn cynnwys TAW ac unrhyw dreuliau.

Pwy all ymgeisio am y comisiynau hyn?

Unrhyw awduron llawrydd yng Nghymru, **ac eithrio'r rhai sydd wedi'u cynnwys yn yr adran 'Pwy sydd ddim yn gymwys' isod**. Gall awduron wneud cais am **un comisiwn yn unig**; fodd bynnag, mae croeso i chi gyflwyno mynegiadau o ddiddordeb yn unigol, mewn parau neu fel grŵp.

Mae'r rhai nad ydynt wedi'u cofrestru'n Hunangyflogedig, nad ydynt mewn addysg amser llawn ac ar hyn o bryd nid oes ganddynt incwm rheolaidd hefyd yn rhydd i wneud cais.

Pwy sydd ddim yn gymwys i ymgeisio am y comisiynau hyn?

Awduron sydd wedi derbyn ffi gan Llenyddiaeth Cymru am waith a ddigwyddodd rhwng Mawrth 2020 a Rhagfyr 2020. Mae'r ffioedd hyn yn cynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) y canlynol:

- Ysgoloriaeth Awdur Llenyddiaeth Cymru
- Ffi ar gyfer rowndiau blaenorol o Weithiau Comisiwn neu brosiectau eraill sy'n cael eu cyllido gan Llenyddiaeth Cymru
- Ffi tiwtor Tŷ Newydd (gan gynnwys gweithdai ar-lein neu dâl gohirio)
- Y rheiny sydd yn derbyn nawdd rheolaidd gan Llenyddiaeth Cymru, er enghraifft Bardd Cenedlaethol Cymru, Bardd Plant Cymru neu'r Children's Laureate Wales.

Pa fath o brosiect / gynnwys sydd yn gymwys?

Rydym yn chwilio am brosiectau / cynnwys a fydd yn ysbrydoli ac yn difyrru unigolion a chymunedau ar **incwm isel** trwy gymryd rhan weithredol mewn llenyddiaeth. I ganfod rhagor o wybodaeth am biler gweithgaredd Cyfranogi Llenyddiaeth Cymru, gweler ein [Cynllun Strategol 2019-2022](#).

Bydd gan geisiadau sy'n dangos ystyriaeth glir i'r **Nodau a'r Amcanion** a'r **cynulleidfaoedd a argymhellir** eu targedu yn yr adran **Cyngor** (uchod) siawns uwch o lwyddo.

Pa fath o brosiect / gynnwys sydd ddim yn gymwys?

- Prosiectau neu gynnwys personol, megis ysgrifennu nofel / stori fer / ysgrif.
- Prosiectau neu gynnwys sydd ddim yn cynnwys elfen gyfranogi neu sydd heb eu creu ar gyfer cynulleidfa.
- Prosiectau neu gynnwys sydd ddim yn cynnwys llenyddiaeth a/neu ysgrifennu creadigol fel thema ganolog.

Sut gaiff y ceisiadau eu hasesu?

Mae'r panel dethol yn cynnwys cynrychiolwyr o'r sefydliadau sy'n ariannu'r comisiynau hyn. Mae'r panel yn cynnwys unigolion o amrywiaeth o gefndiroedd ac yn cynrychioli arbenigedd mewn gwahanol feysydd o'n gwaith gan gynnwys cyfathrebu, cyfranogi, datblygu awduron, monitro a gwerthuso, cynrychiolaeth a chydaddoldeb, a iechyd a llesiant.

Cyflwynir pob cais i'r panel yn ddienw, ac yna bydd y panel yn asesu pob prosiect / cynnwys arfaethedig yn seiliedig ar ei botensial neu ei deilyngdod ei hun. Bydd ymgeiswyr ar y rhestr fer yn mynychu cyfweiliad byr, dros Zoom, i gynorthwyo gyda'r penderfyniad terfynol.

Os nad ydw i yn gymwys ar gyfer y cyflw hwn, neu os nad yw fy nghynnwys / prosiect yn gweddu gyda'r meini prawf, pa gymorth arall all Llenyddiaeth Cymru ei ddarparu, neu at bwy arall alla i droi am gyllid?

Cadwch olwg ar wefan Llenyddiaeth Cymru am ragor o gyfleoedd, neu cysylltwch:

post@llynyddiaethcymru.org